Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro

Eich cyngor gwirfoddol sirol lleol

11. Ymgyrchu a dylanwadu

11.3 Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Trosolwg

Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yw corff *deddfwriaethol* Cymru. Ei rôl yw archwilio a monitro gwaith Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC).

Llywodraeth Cynulliad Cymru yw corff *gweithredol* Cymru. Mae'n cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymreig eraill, y Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol.

Mae'r gwahaniaeth rhwng y ddau gorff yr un fath â'r gwahaniaeth rhwng Senedd y DU a Llywodraeth y DU. Gall bod yn glir am y gwahaniaeth rhwng y ddau fod yn fanteisiol i fudiadau'r trydydd sector, er mwyn sicrhau eich bod yn siarad â'r bobl iawn am y pethau cywir, a defnyddio pob cyfle posib i ddylanwadu a dweud eich dweud. Bydd y daflen wybodaeth hon yn esbonio mwy am bob sefydliad, sut maen nhw'n gweithio, a chyfleoedd i'r trydydd sector ddylanwadu arnynt.

Beth yw hanes hyn i gyd?

Sefydlwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 fel corff unigol yn ymgorffori swyddogaethau gweithredol a deddfwriaethol. Er bod Llywodraeth Cynulliad Cymru yn bodoli, roedd yn rhan o CCC, a'r CCC oedd yn penderfynu ar ei flaenoriaethau; fe wnaeth, archwiliwyd a chefnogwyd y ddeddfwriaeth a ddiffiniwyd yn y darpariaethau Cymreig yn y Ddeddf Seneddol; ac fe wariwyd cyllid y Cynulliad.

Newidiwyd y cyfan gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Fe wahanodd yn ffurfiol yr adran weithredol (LLCC) a'r deddfwriaethol (CCC). Roedd y newidiadau yma yn gwneud y LLCC yn gyfrifol am: wneud penderfyniadau ar faterion a fyddai'n effeithio ar fywydau dyddiol pobl; datblygu a gweithredu polisi; gwneud is-ddeddfwriaeth (e.e. cyfarwyddyd rheoliadau a statudol) a chynnig deddfwriaeth newydd. Mae'r CCC yn gyfrifol am roi cyfrif i'r LLCC drwy fonitro ac archwilio'r dulliau a ddefnyddir i wneud hyn.

Mae gwybodaeth bellach ar hanes datganoli a Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ar gael mewn taflen wybodaeth ar wahân.

Llywodraeth Cynulliad Cymru

Beth yw ei gynnwys

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cynnwys y Prif Weinidog, Gweinidogion Cymreig eraill, Dirprwy Brif Weinidog a'r Cwnsler Cyffredinol. Penodir y Prif Weinidog gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ar enwebiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Penodir y Gweinidogion a'r Cwnsler Cyffredinol gan y Prif Weinidog, a'u cymeradwyo gan y Frenhines. Ni all nifer y Gweinidogion a Dirprwy Weinidogion fod yn fwy na 12. Y Cwnsler Cyffredinol yw Prif Ymgynghorydd Cyfreithiol Llywodraeth Cynulliad Cymru; nid yw'n Weinidog ond mae'n aelod o Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gall y Cwnsler Cyffredinol fod yn AC ond ddim o reidrwydd; os yw'n AC, mae hawl ganddo gymryd rhan yn nhrafodion y Cynulliad Cenedlaethol ond ni all bleidleisio.

Mae'r broses yn golygu mai arweinydd y blaid sy'n ennill mwyafrif y seddi mewn Etholiad Cynulliad fel arfer sy'n Brif Weinidog, a bod y blaid honno yn llywodraethu. Fodd bynnag, os nad oes un blaid yn ennill mwyafrif, efallai bydd eisiau ffurfio llywodraeth glymblaid, fel digwyddodd yn 2000 a 2007. Yn yr achos hwn, mae swyddi'r gweinidogion yn cael eu rhannu rhwng y ddwy blaid.

Beth yw ei waith

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am: wneud penderfyniadau ar faterion a fyddai'n effeithio ar fywydau dyddiol pobl; datblygu a gweithredu polisi; gwneud is-ddeddfwriaeth (e.e. cyfarwyddyd rheoliadau a statudol) a chynnig deddfwriaeth newydd. Yn gyffredinol mae'n gyfrifol am weithrediad Cymru o ddydd i ddydd ym mhob maes polisi datganoli. Mae'r rhain yn cynnwys y Gwasanaeth Iechyd, addysg, tai, gwasanaethau cymdeithasol, amaeth, trafnidiaeth a llawer mwy. Arweinir gwaith y LLCC gan y Gweinidogion a'i weithredu gan weision sifil.

Perthynas gyda'r trydydd sector a chyfleoedd i ddylanwadu

Mae'r berthynas rhwng y LLCC a'r trydydd sector wedi'i osod allan yn Neddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n datgan fod rhaid i 'Weinidogion Cymreig wneud cynllun (y cynllun sector gwirfoddol) yn dweud sut byddant, yn eu swyddogaethau, yn hyrwyddo diddordebau mudiadau gwirfoddol perthnasol'. Mae'n gosod allan perthynas statudol rhwng y sector a LLCC, ac yn mynnu fod LLCC yn adrodd ar y Cynllun Sector Gwirfoddol (a elwir hefyd yn gynllun y trydydd sector) yn flynyddol a'i gadw dan arolygaeth. Golyga hyn fod gan y sector fecanwaith ffurfiol ar gyfer ei ymrwymiad gyda LLCC sy'n cynnwys cyngor partneriaeth y trydydd sector a weinyddir gan WCVA a chyfarfodydd Gweinidogion rheolaidd gyda chynrychiolwyr y sector. Gelwir y strategaeth a chynllun gweithredu LLCC ar gyfer ei berthynas gyda'r sector yn *'Y Trydydd Dimensiwn'* ac fe fydd yn rhedeg tan 2010 / 11.

Mae'r trefniant 'partneriaeth' rhwng LLCC a'r sector yn golygu fod y sector:

- Yn cael dweud cyfartal gyda LLCC am y trefniadau cydweithio rhwng LLCC a'r sector gwirfoddol.
- Yn cyfrannu tuag at gam ffurfiannol wrth roi gwybodaeth am ddatblygiad polisi a rhaglenni ar draws LLCC, ac yr asesir ei gynigion yn erbyn yr un meini prawf a'r sector cyhoeddus.
- Yn cyfrannu ei farn ar y dulliau gweithredu ar gyfer gweinyddiaeth adnoddau a blaenoriaethau ar gyfer dyrannu adnoddau i'r sector gwirfoddol.
- Yn medru gweld ei wybodaeth, hyfforddiant ei hun, a medru adeiladu gwasanaethau ac adnoddau.

- Yn cael cyfleoedd i arwain yn y meysydd hynny ble mae'n well i wneud hynny.

Fel rhan o'r cynllun sector gwirfoddol, mae pob Gweinidog LLCC wedi ymrwymo i gwrdd â chynrychiolwyr y sector gwirfoddol dwywaith y flwyddyn. Hwylusir y cyfarfodydd yma gan WCVA, ac mae cynrychiolwyr y sector yn dod o rwydweithiau polisi amrywiol WCVA. Ffyrdd pwysig eraill i fudiadau i ddefnyddio wrth ddylanwadu ar LLCC yw darparu atebion i ymgynghoriadau ffurfiol ac adeiladu perthynas gyda Gweinidogion unigol, gweision sifil ac ymgynghorwyr arbenigol.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Beth yw ei gynnwys
Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (CCC) yn cynnwys 60 Aelod Cynulliad (AC) ac fe'i gweinyddir gan Gomisiwn y Cynulliad. Mae'r Comisiwn yn gorff newydd a sefydlwyd gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, ac mae'n gyfrifol am sicrhau fod CCC yn cael yr adnoddau, staff a gwasanaethau sydd eu hangen. Mae mwy o wybodaeth am Gomisiwn y Cynulliad ar daflen wybodaeth arall. Etholir yr AC fel a ganlyn: etholir un AC i gynrychioli pob un o'r 40 etholaeth yng Nghymru gan ddefnyddio system 'y cyntaf i'r felin..'; etholir 20 AC arall o'r rhestri rhanbarthol gan ddefnyddio System Aelod Ychwanegol, sydd yn ffurf o gynrychiolaeth gyfrannol. Mae etholiadau'r Cynulliad yn digwydd pob pedair blynedd, ac mae gan bob person dwy bleidlais. Mae'r bleidlais gyntaf ar gyfer yr unigolyn i gynrychioli'r etholaeth (dyma'r system cyntaf i'r felin); mae'r ail bleidlais ar gyfer plaid boliticaidd, ac mae'r canlyniadau yma ar sail ranbarthol (rhennir Cymru yn 5 rhanbarth) i ddyrannu'r 20 sedd sy'n weddill. Mae'r system yma yn gweithio tuag at sicrhau fod nifer y seddau a ddelir gan bob plaid yn adlewyrchu rhan y pleidleisiau gan y blaid honno.

Beth yw ei waith
Rôl Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw rhoi cyfrif i'r Llywodraeth ac archwilio deddfwriaeth. Gall hyn gynnwys archwilio'r ffordd y mae Gweinidogion yn rhyddhau eu swyddogaethau; archwilio a chytuno ar y gyllideb; archwilio deddfwriaeth israddol a gwneud ac archwilio deddfau. Gwneir hyn drwy sesiynau llawn a thrwy bwyllgorau. Mae sesiynau llawn yn cymryd lle ar brynhawn Mawrth a Mercher, a dyma fforwm gwneud penderfyniadau a deddfau'r CCC. Mae pwyllgor yn grŵp o AC sy'n cwrdd i archwilio polisi a deddfwriaeth. Mae pwyllgorau fel arfer yn gytbwys o ran pleidiau ac yn adlewyrchu'r AC sy'n rhan o bob plaid yn y Cynulliad. Mae yna dri math o bwyllgor archwilio a rennir yn feysydd polisi, e.e. Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol; pwyllgorau gorfodol a enwir yn rheolau sefydlog y Cynulliad, e.e. Pwyllgor Cyllid; a phwyllgorau deddfwriaeth sy'n archwilio cynigion deddfwriaeth newydd. Mae mwy o wybodaeth am y ffyrdd y mae'r Cynulliad yn gweithredu ar daflen wybodaeth arall.

Perthynas gyda'r trydydd sector a chyfleoedd i ddylanwadu
Yn groes i'r berthynas statudol sy'n bodoli rhwng Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r trydydd sector drwy'r Cynllun Sector Gwirfoddol, nid oes perthynas ffurfiol rhwng y sector a Chynulliad Cenedlaethol

Cymru. Fodd bynnag, mae yna nifer o gyfleoedd i'r trydydd sector ddylanwadu CCC a bwydo mewn i'w waith. Mae'r rhain yn cynnwys:

Y Broses Deiseb - Crëwyd system deisebu newydd o fewn y Cynulliad gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, sy'n rhoi cyfle i'r cyhoedd ofyn i'r Cynulliad i edrych ar faterion pwysig iddynt. Rhaid i'r Pwyllgor Deisebau ystyried unrhyw ddeiseb sydd â deg llofnod neu fwy ac sydd o fewn ystod swyddogaethau'r CCC, a fydd wedyn yn penderfynu sut i ddelio gyda phob mater. (Gweler ein taflen wybodaeth arall ar y testun yma ac am wybodaeth bellach ar y Broses Deiseb).

Ymholiad Pwyllgor - Mae pwyllgorau'r Cynulliad yn aml yn ymgymryd ag ymholiadau i faterion penodol yn ôl eu portffolios eang. Mae'r ymholiadau yma yn tueddu ymdrin â phroses ymgynghoriad cyhoeddus / galwad am dystiolaeth, a gellir gwahodd mudiadau i roi tystiolaeth bersonol. Mae cyfrannu at ymholiadau pwyllgor yn ffordd dda o gyflwyno eich barn i grŵp o AC trawsbleidiol sy'n awyddus i archwilio gwaith y Llywodraeth a chlywed gan ystod eang o fudd-ddeiliaid. Bydd pob ymholiad yn cael adroddiad ac argymhellion i'r LLCC.

Lobïo AC unigol - Mae pob AC yn cynrychioli etholaeth, ac yn ceisio sicrhau y clywir barn eu hetholwyr. Mae gan lawer AC eu meysydd diddordeb penodol, a gallant fod yn ffrindiau defnyddiol i gefnogi ymgyrch y mudiad. Mae'n werth rhoi gwybod i AC am unrhyw ymgyrchoedd sydd gennych ar y gweill neu faterion yr hoffech eu codi. Gellir gwneud hyn drwy anfon briffiau (y byrraf posib, gorau posib); trefnu cyfarfod wyneb yn wyneb neu ofyn i AC i'ch noddi neu siarad mewn digwyddiad yr ydych yn ei gynnal.

Awgrymu syniadau ar gyfer deddfwriaeth - Rhoddodd y Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 bwerau newydd i'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud deddfau arbenigol ar gyfer Cymru am y tro cyntaf. Golyga hyn fod yna gyfle i'r trydydd sector amlygu bylchau neu wendidau yn y ddeddfwriaeth gyfredol ac awgrymu deddfau newydd a ellir eu gwneud yng Nghymru.

Nid yw hyn yn broses syml ac mae yna nifer o faterion i'w hystyried, gan nad oes hawl gan y Cynulliad i wneud deddfau ymhob maes polisi, ond serch hynny mae hwn yn gyfle unigryw i'r trydydd sector. Gellir cynnig syniadau am ddeddfwriaeth newydd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Pwyllgorau CCC, y Comisiwn Cynulliad ac AC unigol os dewisir hwy mewn pleidlais. (Gweler y taflenni gwybodaeth eraill ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol; Mesurau'r Cynulliad a Dylanwadu'r Cynulliad Cenedlaethol am fwy o wybodaeth ar y pwnc).

Gwybodaeth Bellach

Mae **Lleisiau dros Newid Cymru** yn un o brosiectau WCVA ac fe'i cefnogir gan y Gronfa Loteri Fawr. Erbyn hyn, mae mwy o gyfleoedd nag erioed i'ch llais gael ei glywed, a nod y prosiect yw darparu gwasanaethau i alluogi mudiadau trydydd sector i ddylanwadu ar y rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar lefel lleol a chenedlaethol.

Ffôn: 0800 2888 329
vfcc@wcva.org.uk
www.voicesforchangecymru.org.uk

Llywodraeth Cynulliad Cymru
www.cymru.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
www.cynulliadcymru.org

Ymwadiad
Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw berson weithredu neu wrthod gweithredu arno.

Am rhagor o wybodaeth cysylltwch â

Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro
36-38 Stryd Fawr, Hwlffordd, Sir Benfro, SA61 2DA
Elusen Gofrestredig *1063289*

Ffôn: 01437 769422 info@pavs.org.uk
Ffacs: 01437 769431 www.pavs.org.uk

Cynhyrchwyd gan WCVA, Cynghorau Gwirfoddol Sirol a Chanolfannau Gwirfoddoli
Wedi ei ddiweddaru:30/03/2009

Cyngor Gwirfoddol Cymru WCVA Wales Council for Voluntary Action
Ffôn: 0800 2888 329
www.wcva.org.uk